**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 14eg Mehefin 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, A.J. Rutherford, Miss C.L. Williams,

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Hefyd yn bresennol (yn arsylwi) - y Cynghorwyr B. Jones, a T. Thomas

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr S. Harris (ymrwymiad arall), Miss E.L. Jones (ymrwymiad gwaith), P. Prendergast (ar wyliau), Ms. V. Roberts (rheswm arall)

## 2. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 2.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 47 Kinmel Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGH WARD:** Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0144<br><br>Adeiladu storfa yn y cefn.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Fred Weston Electrical Contractors o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 2.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 97 Stryd Fawr, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGH WARD:** Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine |

| | |
|---|---|
| | **Rhif y CAIS:** 45/2017/0309<br><br>Newid tu blaen y siop.<br><br>Yr ymgeisydd yw'r British Heart Foundation, Crown House, Church Road, Claygate.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Nodyn 1 uchod. |
| | |
| 2.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 97 Stryd Fawr, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGH WARD:** Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0310<br><br>Gosod arwyddion goleuedig a heb olau i du blaen a chefn yr adeilad.<br><br>Yr ymgeisydd yw'r British Heart Foundation, Crown House, Church Road, Claygate<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Nodyn 1 uchod. |
| | |
| 2.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE**a Tir yn cyffinio 21 Stanley Park Avenue, y Rhyl.<br><br>**WARD**: Trellewelyn<br><br>**CYNGH WARD:** A.S. Johnson, Mrs. W. Mullen-James, Ms. V. Roberts<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2017/0335<br><br>Datblygu 0.05 ha o dir trwy adeiladu 1 tŷ annedd (cais amlinell yn cynnwys mynediad, cynllun a maint)<br><br>Yr ymgeisydd yw O'Loughlin, 11a Gillian Drive, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Gwrthwynebiad am resymau gor-ddwysedd. |
| | |
| 2.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 421 Ffordd Arfordir y Rhyl, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bryn Hedydd<br><br>**CYNGH WARD:** S. Harris, B. Mellor<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2017/0336<br><br>Adeiladu estyniad i dŷ annedd. |

| | |
|---|---|
| | Yr ymgeisydd yw Mrs. Diane Inglis o’r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 2.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE**: Parc Drifft gynt, Rhodfa’r Gorllewin, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGH WARD**: Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0384<br><br>Dymchwel parc sglefrio presennol a chytiau manwerthu ategol. Adeiladu Atyniad Parc Dŵr a Hamdden newydd yn cynnwys:- pwll hamdden dan do gyda chafnau, sleidiau, strwythur chwarae ac ardal hyder dŵr, mannau newid, lle chwarae i blant; ystafelloedd parti a gweithareddau dringo, caffi/bar trwyddedig, pwll padlo awyr agored gydag offer chwarae, mannau eistedd dan do/awyr agored, llety ategol ac ystafell blanhigion.<br><br>Yr ymgeisydd yw Alliance Leisure Limited, Bridgwater.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad yn ddarosyngedig i amod yn gofyn bod parc sglefrio newydd yn cael ei ddarparu ac wedi ei agor cyn symud ymaith y cyfleustra presennol. |
| | |
| 2.7 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn Greenfield Place, y Rhyl.<br><br>**WARD**: Pendyffryn<br><br>**CYNGH WARD:** Mrs. D.L. King, A.J. Rutherford<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2017/0389<br><br>Gosod dau beiriant tocynnau parcio.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Hewitt o K/S Greenfield Place d/o Nectar Asset Management Ltd. Regnbuepladsen 5, 4ydd Llawr, 1550 Copenhagen V, Copenhagen, Denmarc.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 2.8 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** McDonald’s Restaurant18-20 Stryd Fawr, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGH WARD**: Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0470 |

| | |
|---|---|
| | Defnyddio’r palmant o flaen yr adeilad i ddarparu seddau allanol.<br><br>Yr ymgeisydd yw McDonald’s Restaurant Ltd. 11-59 High Road, East Finchley, Llundain.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 2.9 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** McDonald’s Restaurant, 18-20 Stryd Fawr, y Rhyl.<br><br>**WARD**: Bodfor<br><br>**CYNGH WARD:** Ms. J. Hughes, Ms J. McAlpine<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0471<br><br>Ailgyflunio, ailwampio ac ymestyn y tu blaen a gwaith cysylltiedig.<br><br>Yr ymgeisydd yw McDonald’s Restaurant Ltd. 11-59 High Road, East Finchley, Llundain.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad yn ddarosytyngedig i<br><br>- ailgyflunio ac ailwampio ond dim estyniad i’w ganiatáu heb gyflwyno cynlluniau priodol<br>- Nodyn 1 uchod |
| | |

## 3. TERFYNU’R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………….........